Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Gwybodaeth i Ymgeiswyr

## Cynghorwyr Annibynnol i
## Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## a
## Chadeirydd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad

Awst 2007

Cynghorwyr Annibynnol

# GWYBODAETH I YMGEISWYR

| | |
|---|---|
| Swydd 1: | Cynghorydd Annibynnol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| Swydd 2: | Cynghorydd Annibynnol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad. |
| Tâl: | Swydd 1 - £5,000 y flwyddyn (nid yw'n bensiynadwy). Disgwylir i ddeiliad y swydd ymrwymo i 15 diwrnod y flwyddyn.<br>Swydd 2 - £7,000 y flwyddyn (nid yw'n bensiynadwy). Disgwylir i ddeiliad y swydd ymrwymo i 15 diwrnod y flwyddyn. |
| Lleoliad: | Bae Caerdydd. |

## CYFLWYNIAD

1. Sefydlwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a daeth i fodolaeth ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2007. Prif swyddogaeth y Comisiwn yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad.

2. Mae gan y Cynulliad bum Comisiynydd – y Llywydd (fel cadeirydd) a phedwar Aelod Cynulliad arall – un o bob un o'r prif bleidiau gwleidyddol. Mae'r Comisiwn yn cyflogi ychydig o dan 300 o staff sy'n gwasanaethu'r Cynulliad. Pennaeth y Cynulliad yw'r Prif Weithredwr a Chlerc, sef y Prif Swyddog Cyfrifyddu. Mae gan y Comisiwn gyllideb flynyddol o £35 miliwn.

## SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR ANNIBYNNOL

3. Mae'r Comisiwn yn bwriadu penodi dau gynghorydd annibynnol i weithio mewn rôl anweithredol gan gynghori'r Comisiynwyr a'r uwch reolwyr ar bob agwedd ar fusnes y Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnal busnes y Cynulliad yn effeithiol ac yn effeithlon;
- Defnyddio technoleg gwybodaeth ac adnoddau eraill mewn ffordd arloesol;
- Llywodraethu corfforaethol a rheoli risgiau.

4. Bydd y cynghorwyr hefyd yn aelodau o Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn a bydd un o'r cynghorwyr hefyd yn cadeirio'r pwyllgor hwn. Pwyllgor cynghori fydd y pwyllgor a bydd ei rôl yn debyg i rôl pwyllgor archwilio mewn sefydliadau eraill y sector cyhoeddus a phreifat mawr a bydd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

## MEINI PRAWF PENODOL I'R SWYDD

5. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus gyfrannu at ddatblygiad y Comisiwn a'i ffordd strategol o feddwl. Felly, rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd â phrofiad o:

- Arweiniad eang ac ar lefel strategol mewn sefydliad sy'n darparu gwasanaethau;
- Hwyluso trawsnewidiadau sy'n cael eu harwain gan gwsmeriaid ac sy'n ymwneud â'r dyfodol;
- Llywodraethu corfforaethol, rheoli cyllid a rheoli risgiau;
- Codi safonau perfformiad mewn sefydliad.

## MANYLEB Y PERSON

6. **Gofynion Hanfodol**

Bydd gan y person rydym yn chwilio amdano'r cymwyseddau allweddol a ganlyn:

- Y gallu i gyfrannu'n gadarnhaol at sefydliad mewn rôl anweithredol;
- Y gallu i gynnal ffocws a gweledigaeth strategol;
- Y bersonoliaeth a'r presenoldeb sydd eu hangen i fynnu parch a chael dylanwad ar y Comisiynwyr ac Aelodau'r Cynulliad;
- Ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir a'r gallu i weithio mewn amgylchedd gwleidyddol;
- Y gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol (ar gyfer Swydd 2).

## TELERAU'R PENODIAD

7. Caiff yr unigolion eu penodi ar ddechrau mis Hydref**.**

## HYD Y PENODIAD

8. Bydd y swyddi'n para am gyfnod o 3 blynedd, a adnewyddir am gyfnod arall o 3 blynedd, a hynny'n dibynnu ar berfformiad boddhaol.

## CYMHWYSTER

9. Dylai'r ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod gan y cyhoedd hyder ynddynt drwy'r amser.

10. Yn benodol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywyd preifat neu eu bywyd proffesiynol a all beri embaras iddynt hwy neu i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai'n dod yn hysbys os cânt eu penodi.

**CYMORTH AR GYFER POBL ANABL**

11. Gwneir pob ymdrech i roi pa bynnag gymorth rhesymol sydd ei angen ar unigolion i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau.

**Y BROSES DDETHOL**

12. Bydd panel dethol yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir gan bob ymgeisydd yn erbyn y Meini Prawf Penodol i'r Swydd a Manyleb y Person.

13. Cynhelir y cyfweliadau cyn diwedd mis Medi.

14. Gobeithir penodi unigolion ar ddechrau mis Hydref, gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau eu swyddi cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwnnw.

15. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu parchu a gwneir y penodiadau ar sail teilyngdod. Rydym yn annog ceisiadau gan aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, gan gynnwys ceisiadau gan unigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig y tro hwn.

**RHAGOR O WYBODAETH AC YMHOLIADAU**

16. I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais, cysylltwch â Thîm Recriwtio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 029 2089 8888 neu drwy anfon e-bost i: ac.recruitment@wales.gsi.gov.uk. Os hoffech drafod y swydd ymhellach, cysylltwch â Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Comisiwn ar 029 2089 8233 neu â Craig Stephenson, Pennaeth yr Uned Gorfforaethol ar 029 2089 8230.

**CEISIADAU**

17. Dylid gwneud cais drwy lenwi'r ffurflen amgaeedig a'i hanfon i:

    Y Tîm Recriwtio
    Cynulliad Cenedlaethol Cymru
    Bae Caerdydd
    Caerdydd CF99 1NA

    Neu drwy anfon e-bost i: ac.recruitment@wales.gsi.gov.uk

18. Mae'r Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr yn darparu canllawiau manwl ar sut i lenwi'r ffurflen gais.

**DYDDIAD CAU**

19. Y dyddiad cau i ymgeiswyr yw 10 Medi. Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni cais ar ôl y dyddiad hwn.